***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

# ATODLEN 10

# YMCHWILIAD Y COMISIYNYDD I FETHIANT I GYDYMFFURFIO Å SAFONAU ETC

## RHAN 2

## GWYBODAETH, DOGFENNAU A THYSTIOLAETH LAFAR

*Hysbysiadau tystiolaeth*

5 (1) Yn ystod ymchwiliad, caiff y Comisiynydd roi hysbysiad tystiolaeth i berson (A).

(2) Yn y Mesur hwn, ystyr “hysbysiad tystiolaeth” yw hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i A wneud un neu ragor o'r canlynol—

(a) darparu gwybodaeth sydd ym meddiant A;

(b) cyflwyno dogfennau sydd ym meddiant A;

(c) rhoi tystiolaeth lafar.

(3) Caiff hysbysiad o dan y paragraff hwn gynnwys darpariaeth ynghylch—

(a) y ffurf ar wybodaeth, ar ddogfennau neu ar dystiolaeth;

(b) amseru unrhyw beth sydd i'w wneud yn unol â'r hysbysiad.

(4) Ni chaniateir i hysbysiad o dan y paragraff hwn ei gwneud yn ofynnol i A wneud unrhyw beth na allai A gael ei orfodi i'w wneud mewn achos gerbron yr Uchel Lys.

(5) Rhaid i hysbysiad o dan y paragraff hwn hysbysu A—

(a) beth fydd y canlyniadau os na fydd A yn cydymffurfio â'r hysbysiad; a

(b) am yr hawl i apelio o dan baragraff 9.